PWYLLGOR CRAFFU'R ECONOMI A DIWYLLIANT

DYDD MAWRTH, 9 EBRILL 2019

Yn bresenol: Cynghorydd Howells(Cadeirydd)

Cynghorwyr Henshaw, Gordon, Gavin Hill-John, Robson, Sattar a/ac Stubbs

65 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd unrhyw rai.

66 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafwyd unrhyw rai.

67 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Chwefror 2019 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd. Nodwyd cofnodion y Cydbwyllgor Craffu a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd 2018.

68 : STRATEGAETH ECONOMAIDD DDRAFFT; Y PAPUR GWYN AR DDATBLYGU ECONOMAIDD

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Russell Goodway (yr Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu), Neil Hanratty (Cyfarwyddwr yr Economi a Datblygu) a Jonathan Day (Pennaeth Datblygu Economaidd) i'r cyfarfod.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr eitem hon yn rhoi cyfle iddynt ystyried y Strategaeth Economaidd ddrafft ac i ddanfon sylwadau ac unrhyw argymhellion y maent am eu gwneud i'r Cabinet cyn gwneud y penderfyniad.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad lle dywedodd fod y Papur Gwyn hwn yn canolbwyntio ar yr hyn y mae'r weinyddiaeth am ei gyflawni, mae'n rhoi arwydd i'r farchnad o flaenoriaethau'r weinyddiaeth ac mae'n adeiladu ar y cofnod o weithio'n llwyddiannus mewn partneriaeth. Nodwyd, fodd bynnag, bod materion sylweddol i'w datrys o hyd ac nad yw pawb wedi elwa o'r twf yn y Ddinas o'r blaen. Wrth symud ymlaen mae'r Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid megis Sefydliad Joseph Rowntree i geisio sicrhau bod pob cymuned yn elwa o lwyddiant y ddinas.

Ychwanegodd yr Aelod Cabinet fod y Papur Gwyn wedi'i ddatblygu gyda Chyfarwyddiaethau eraill, gan gynnwys Cymunedau, Gweithrediadau'r Ddinas ac Addysg ymhlith eraill; nid oedd yn fwriad iddo fod yn gynllun manwl ond byddai manylion pellach yn cael eu darparu wrth i brosiectau gyrraedd y camau manwl. Roedd yn bwysig nodi nad yw pob prosiect yn cael ei arwain gan y Cyngor, mae rhai yn cael eu harwain gan bartneriaeth ac mae rhai yn estyniad o'r hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud eisoes. Byddai mwy o fanylion yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet yn ystod y misoedd nesaf a lle bo'n briodol, byddai cyfle i graffu. Croesawyd safbwyntiau'r Pwyllgor Craffu wrth fwrw ymlaen ag agenda'r Ddinas.

Rhoddwyd cyflwyniad i'r Aelodau ar y Strategaeth Economaidd Ddrafft; Y Papur Gwyn ar Ddatblygu Economaidd, ac ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau;

Gofynnodd yr Aelodau sut mae'r Papur Gwyn hwn yn cyd-fynd â strategaethau eraill fel y Cynllun Datblygu Lleol a'r Strategaeth Drafnidiaeth er mwyn sicrhau nad oes gwrthdaro. Dywedodd yr Aelod Cabinet ei fod yn gweithio gyda'r Aelod Cabinet dros Drafnidiaeth i gyd-fynd â'r Strategaeth Drafnidiaeth, bod rhai tensiynau'n debygol gan fod blaenoriaethau gwahanol, yr un fath â'r Cynllun Datblygu Lleol, y byddai'r rhain yn cael eu parchu ac y byddai cyfle i adolygu hyn yn y dyfodol.

Roedd yr Aelodau'n bryderus y gallai fod tensiynau creadigol rhwng materion datblygu economaidd, trafnidiaeth a'r amgylchedd a gofynnwyd sut y gellid datrys hyn. Cydnabu'r Aelod Cabinet ei fod yn her, ond yr oedd yn bwysig ei gael yn iawn, yr oedd angen cael swyddi yng nghanol y Ddinas ac yr oedd angen i bobl allu eu cyrraedd, mae yna fwyafrif o gydrannau seilwaith da ac mae hyn yn gofyn am fuddsoddiad sector cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru.

Gofynnodd yr Aelodau beth oedd y sefyllfa bresennol o ran ffordd liniaru'r M4 a dywedwyd wrthynt fod y Cyngor yn ei gefnogi, a byddai ei absenoldeb yn rhwystr enfawr i ddatblygu Caerdydd a'r rhanbarth.

Gofynnodd yr Aelodau beth oedd y sefyllfa gyda'r orsaf drenau yng Ngabalfa a dywedwyd ei bod wedi ei nodi yn y strategaeth drafnidiaeth fel un mewn nifer o orsafoedd, bod angen cyllid bellach.

Gofynnodd yr Aelodau am gysylltedd â'r Pentref Chwaraeon Rhyngwladol ac fe'u cynghorwyd bod angen i'r lleoliad gael màs critigol o weithgarwch er mwyn sicrhau bod mwy o drafnidiaeth gyhoeddus yn ddichonadwy ac yn ddeniadol.

Trafododd yr Aelodau'r dangosyddion a gofynnwyd sut y gellid eu defnyddio i olrhain a mesur cynnydd, yn enwedig mewn meysydd fel mynd i'r afael â thlodi. Esboniodd swyddogion y byddai dangosyddion megis edrych ar wardiau sy'n perfformio'n well, data ar ddiweithdra ac ati yn cael eu defnyddio i edrych ar sut yr ymdrinnir â materion yn lleol a ble i dargedu gwasanaethau. Mae Addewid Caerdydd yn gweithio gydag ysgolion cynradd a hŷn, gan godi dyheadau a siarad am sectorau a swyddi i bobl ifanc. Byddai ffocws ar dargedu cymorth a gwasanaethau i ardaloedd sy'n tanberfformio, gan ystyried effeithiau lleol prosiectau arfaethedig i gynyddu effeithiau cadarnhaol a llunio prosiectau'r Cyngor i sicrhau canlyniadau economaidd i bobl.

Nododd yr Aelodau'r gwelliant yn y papur ac roeddent o'r farn ei bod yn dda ei fod yn nodi nad oedd pob un wedi elwa yn y gorffennol ar dwf y Ddinas, gan ofyn sut yr eir i'r afael â hyn wrth symud ymlaen. Eglurodd yr Aelod Cabinet fod gwersi i'w dysgu o'r hyn a ddigwyddodd yn Butetown o'r blaen a'i bod yn bwysig sicrhau bod yr hyn sy'n digwydd yn y Bae yn treiddio drwy'r wal honno, yn enwedig gyda'r Arena a bod y swyddi a grëir yn darparu cyfle i bobl leol. Byddai cysylltiadau â byd busnes ac addysg yn yr ardal hefyd.

Gofynnodd Aelodau a oedd digon o adnoddau yn y tîm Datblygu Economaidd i gyflawni hyn ac a oedd cyfleoedd i weithio gyda sefydliadau partner os nad oeddent yn gwneud hynny. Roedd swyddogion yn cytuno bod adnoddau'n brin a bod angen

gweithio'n effeithiol mewn partneriaethau â'r sector preifat a chyhoeddus a hefyd Llywodraeth Cymru. Roedd tîm profiadol o fewn Datblygu Economaidd a oedd yn alluog ac a fyddai'n parhau i edrych ar ffyrdd o weithio'n adeiladol ac yn arloesol.

Gofynnodd yr Aelodau a ystyriwyd effaith amgylcheddol denu diwydiant i'r ddinas, ac fe'u cynghorwyd bod angen iddi fod yn agwedd sylfaenol, ynghyd â gwelliannau amgylcheddol fel mannau gwyrdd a mynediad i swyddi.

Nododd yr Aelodau, yn ystod y ddadl yn y Cyngor Llawn, fod Arweinydd y Cyngor wedi cydnabod nifer o feysydd, gan gynnwys Pobl Ifanc heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant, yr oedd angen rhoi sylw iddynt a gofynnwyd a oedd unrhyw newidiadau wedi'u gwneud o ganlyniad i hyn. Eglurodd swyddogion eu bod wedi diwygio'r dangosyddion i gyd-fynd â'r hyn y maent am ei gyflawni, gyda dangosyddion ychwanegol wedi'u cynnwys ar gyfer diweithdra ymysg pobl ifanc a mwy o ddangosyddion yn canolbwyntio ar Dwf Cynhwysol. Mewn perthynas yn benodol â Phobl Ifanc heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant, mae Caerdydd yn perfformio'n dda ond byddai hyn yn cael ei fonitro. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet nad oedd hon yn ddogfen derfynol a bod cyfle i atgyfnerthu negeseuon cyn i'r adroddiad fynd gerbron y Cabinet.

Cyfeiriodd yr Aelodau at y sleid a gyflwynwyd ar Ganol Dinasoedd Llwyddiannus gan nodi mai dim ond Llundain sydd â mwy na 3 gwaith man swyddfa. Gofynnodd yr Aelodau a yw'r cynnydd mewn llety i fyfyrwyr a gostyngiad mewn swyddfeydd yng nghanol y ddinas wedi effeithio ar Gaerdydd. Dywedodd yr Aelod Cabinet mai mater cynllunio oedd hwn ond nid oedd yn ystyried bod hyn wedi cael unrhyw effaith, gan ychwanegu ei bod yn bwysig nodi nad gofod tir yn unig ydoedd ond gofod aer a thaldra adeiladau sydd weithiau'n codi pryderon am gynllunio. Ychwanegodd hefyd mai polisi'r Cyngor oedd adeiladu ar safleoedd tir llwyd ar gyfer byw yng nghanol y ddinas.

Nododd yr Aelodau mai strategaeth lefel uchel oedd hon ac y byddai adroddiadau pellach yn cael eu cyflwyno, yn gofyn beth y gellir ei ddisgwyl. Eglurwyd mai'r strategaeth oedd y fframwaith ac y byddai nifer o gynlluniau yn gorwedd o dan hynny; sicrhawyd yr Aelodau bod trafodaethau'n cael eu cynnal ar hyd y broses gyda chydweithwyr ym maes trafnidiaeth a'r amgylchedd.

Nododd yr Aelodau fod llawer o gynigion i adeiladu seilwaith ond gofynnwyd bod mannau gwyrdd ac agored yn cael eu hystyried a bod angen mwy o goed yn y ddinas hefyd. Dywedodd yr Aelod Cabinet y bydd y prif gynllun newydd, gan gynnwys ardal y gamlas, yn dangos mannau agored a sgwariau cyhoeddus gwell. Ychwanegodd fod dyhead am fannau agored a phrofiadau awyr agored ar gael i'r cyhoedd yn y Pentref Chwaraeon Rhyngwladol.

PENDERFYNWYD: y câi barn y Pwyllgor ei thrafod yn ystod y rhan o'r cyfarfod lle byddai’r ffordd ymlaen yn cael ei thrafod ac y câi llythyr ei anfon at yr Aelod Cabinet maes o law.

69 : ADRODDIAD HYSBYSU STRATEGAETH GERDDORIAETH AR GYFER CAERDYDD: ASTUDIAETH ECOSYSTEM CERDDORIAETH AC ARGYMHELLION STRATEGOL

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Peter Bradbury (Aelod Cabinet – Diwylliant a Hamdden), Neil Hanratty (Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd), Jonathan Day (Rheolwr Gweithredol – Polisi Economaidd) a Ruth Cayford (Rheolwr y Diwydiannau Creadigol a Diwylliant) i'r Cyfarfod.

Atgoffwyd aelodau o ymgyrch 'Save Womanby Street', a arweiniodd at yr Arweinydd, y Cyng. Thomas yn ymrwymo i weithio gyda phartneriaid ar draws Caerdydd i ddatblygu Strategaeth Gerddoriaeth. Mae'r Cyngor wedi cyflogi Sound Diplomacy i wneud gwaith cychwynnol ar hyn a rhoddodd yr eitem hon wybodaeth i'r Aelodau am waith Sound Diplomacy hyd yma ac mae'n nodi'r amserlen wrth symud ymlaen.

Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i'r Aelod Cabinet wneud datganiad lle y diolchodd i'r Pwyllgor am eu diddordeb yn y mater hwn a oedd yn deillio'n uniongyrchol o'r ymgyrch ar lawr gwlad i achub cerddoriaeth fyw yn Stryd Womanby. Mae'r Cyngor wedi gweithio gyda Sound Diplomacy i sefydlu Strategaeth Gerddoriaeth a cheir adroddiad i'r Cabinet ym mis Ebrill i ymateb i'r 12 argymhelliad. Y Prif argymhelliad oedd sefydlu Bwrdd Cerddoriaeth ond byddai ymateb yn cael ei roi i'r 11 argymhelliad arall hefyd. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet fod hwn yn ddarn o waith cyffrous iawn wedi'i yrru gan y sector cerddoriaeth a'i fod yn rhoi cerddoriaeth wrth wraidd yr hyn y mae'r Cyngor am ei gyflawni yn y ddinas.

Rhoddwyd cyflwyniad i'r aelodau o'r enw 'Caerdydd: Dinas Cerddoriaeth' yn seiliedig ar yr adroddiad o Sound Diplomacy ac ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau;

Gofynnodd yr Aelodau sut olwg fyddai ar y Bwrdd Cerddoriaeth a dywedwyd wrthym y byddai cynrychiolydd o'r Cyngor ar y Bwrdd fel Cadeirydd, ac y byddai hefyd gynrychiolwyr o ysgolion, y diwydiant cerddoriaeth a phartneriaid o'r sector cyhoeddus. Byddai'r gwaith yn adlewyrchu'r Bwrdd yn Llundain, sy'n batrwm da ac yn gweithio'n dda.

Gofynnodd yr Aelodau sut y gellid datblygu sgiliau pobl ifanc/lleol er mwyn sicrhau bod pob cymuned yn elwa ar y dull a gynigir. Dywedodd swyddogion mai Caerdydd fyddai'r awdurdod cyntaf i fabwysiadu ymagwedd gynhwysol o'r fath gan ddefnyddio cerddoriaeth fel grym i adfywio; bydd addysg yn rhan fawr ohono drwy bartneriaeth. Roedd Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn Addysg Gerddoriaeth ac roedd Cronfa'r Anthem yn ei dyddiau cynnar; roedd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cerdd Caerdydd a'r Fro yn rhan o'r gwaith gan ei fod yn flaenoriaeth iddynt. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet y byddai'r ysgol uwchradd newydd yng ngorllewin y ddinas yn cynnig cyfleoedd cerddoriaeth ac yn gweithio gyda phartneriaid cerddoriaeth ac roedd yr awdurdod yn awyddus i barhau â'r cysylltiad hwnnw ac adeiladu arno mewn ysgolion a cholegau eraill.

Gofynnodd yr Aelodau a fyddai cyfle i'r rhanddeiliaid cerddoriaeth eraill roi adborth i'r adroddiad ar Sound Diplomacy, eglurodd yr Aelod Cabinet fod Sound Diplomacy wedi cael y dasg o edrych ar y diwydiant yn ei gyfanrwydd a bod eu hadroddiad yn seiliedig ar gylch gyflwyno trafodaethau gyda rhanddeiliaid eraill a'i bod yn rhoi trosolwg gonest. Eglurodd swyddogion y byddai dull partneriaeth o ymateb i argymhellion Sound Diplomacy, drwy gyfrwng y Bwrdd Cerddoriaeth arfaethedig.

Roedd yr adroddiad o ddiddordeb i'r Aelodau gyda chymaryddion da a gofynnwyd ble mae'r darlun ehangach yn dod a sut y gall Caerdydd gael enw da am gynnal

digwyddiadau byd-eang. Dywedodd yr Aelod Cabinet bod yr adroddiad yn un o'r diwydiant fel y mae ar hyn o bryd, ond roedd yna ddyheadau i'w cyhoeddi yn y dyfodol.

Gofynnodd yr Aelodau, unwaith y bydd y Bwrdd wedi'i sefydlu, sut y byddai'r sefydliadau gwirfoddol yn rhan ohono. Dywedodd swyddogion eu bod yn awyddus i sicrhau bod y sector gwirfoddol yn cymryd rhan a'u bod yn mabwysiadu ymagwedd gynhwysol; byddai is-fyrddau yn cael eu sefydlu ar gyfer lleoliadau/gwasanaethau cyhoeddus/proffesiynol/gwirfoddolwyr ac ati.

Roedd yr Aelodau'n awyddus i wybod sut y byddai'r Bwrdd yn cael adnoddau. Sicrhaodd y swyddogion yr Aelodau na fyddai angen llawer o adnoddau ar y Bwrdd, byddai'r ysgrifenyddiaeth yn cael ei rheoli o adnoddau presennol, a byddent yn ceisio denu cyllid i gyflawni'r Strategaeth Gerddoriaeth.

Roedd yr Aelodau'n meddwl tybed a fyddai hyn yn rhoi cyfle i ailgyflwyno gwersi cerddoriaeth yn ôl i'r ysgolion. Eglurodd yr Aelod Cabinet fod y penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud gan Gyrff Llywodraethu unigol a Llywodraeth Cymru, ac nid oedd o fewn cwmpas y Cyngor. Ychwanegodd fod gan yr ysgolion newydd gyfleusterau gwell felly efallai y bydd mwy o gysylltiadau gydag ysgolion a phartneriaid i lenwi'r bwlch.

PENDERFYNWYD: y câi barn y Pwyllgor ei thrafod yn ystod y rhan o'r cyfarfod lle byddai’r ffordd ymlaen yn cael ei thrafod ac y câi llythyr ei anfon at yr Aelod Cabinet maes o law.

70 : BUSNES Y PWYLLGOR

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr ohebiaeth bellach yn gyfredol.

Atgoffwyd yr Aelodau eu bod wedi gofyn yn y gorffennol am gael gweld cofnodion y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer Bargen Ddinesig Rhanbarth Prifddinas Caerdydd. Cafodd cofnodion drafft cyfarfod cyntaf y Cydbwyllgor eu dosbarthu i'r Aelodau cyn eu cyfarfod ar 17 Ionawr 2019.

Roedd y Cydbwyllgor wedi cynnal cyfarfodydd pellach ar 9 Chwefror 2019 a 28 Mawrth 2019 ac roedd yr agenda a'r cofnodion ar gael ar wefan Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr.

Rhoddwyd trosolwg i'r aelodau o'r ddau gyfarfod a diweddariad ar daith y Cydbwyllgor o amgylch yr adeilad Ffowndri Lled-ddargludyddion ger Casnewydd, a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2019.

Trafododd yr Aelodau'r flaenraglen waith a blaenoriaethu eitemau yr hoffent eu gweld yn y Pwyllgor yn ystod y misoedd nesaf.

71 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

None received.

72 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

9 Mai 2019, 4.30pm, Ystafell Bwyllgor 4, Neuadd y Sir, Caerdydd.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.40 pm